# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 24/02/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb**

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth**

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

### Blaenoriaethau

**C8 Alun Davies:** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer gweddill y tymor Cynulliad hwn? OAQ(3)0959(BB)

**Jane Hutt:** Drwy barhau i ganolbwyntio ar sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'n hagenda 'Cymru'n Un' a darparu ar gyfer pobl Cymru. Dyma'n blaenoriaeth o hyd ac mae'n cael ei hadlewyrchu yn y gyllideb atodol a gyflwynwyd ddoe.

### Amcanion 'Cymru'n Un'

**C9 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd tuag at gyflawni amcanion 'Cymru'n Un' y mae hi'n gyfrifol amdanynt? OAQ(3)0994(BB)

**Jane Hutt:** Cyhoeddwyd y newyddion diweddaraf ynghylch cynllun cyflenwi 'Cymru'n Un' yr wythnos diwethaf, ac mae'n bleser gennyf gyhoeddi cynnydd da ar bob un o'r pedwar amcan yn 'Cymru'n Un' yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

### Materion Gwledig

**C10 Brynle Williams:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y pwysau cyllidebol yn y portffolio materion gwledig? OAQ(3)0984(BB)

**Jane Hutt:** Wrth baratoi cyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11, cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Gweinidogion ynghylch y blaenoriaethau yn eu portffolios. Y canlyniad ar gyfer y portffolio materion gwledig yw bod y dyraniad refeniw 1.2 y cant yn fwy o'i gymharu â chyllideb 2009-10.

### Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn

**C11 Kirsty Williams:** Faint o hyblygrwydd diwedd blwyddyn y mae'r Gweinidog yn rhagweld a fydd ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf? OAQ(3)0974(BB)

**Jane Hutt:** Mae lefel yr hyblygrwydd diwedd blwyddyn a fydd ar gael yn y flwyddyn ariannol nesaf yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys ein halldro terfynol yn y flwyddyn gyfredol. Nid yw'n bosibl amcangyfrif lefel yr hyblygrwydd diwedd blwyddyn ar hyn o bryd

### Cyllid Ychwanegol

**C12 Angela Burns:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch yr angen am gyllid ychwanegol ar gyfer y portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol? OAQ(3)0987(BB)

**Jane Hutt:** Canlyniad cyllideb 2010-11 ar gyfer y portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol yw bod y dyraniad refeniw 2.2 y cant yn fwy o'i gymharu â chyllideb 2009-10.

### Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

**C13 Brynle Williams:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y pwysau cyllidebol yn y portffolio plant, addysg a dysgu gydol oes? OAQ(3)0983(BB)

**Jane Hutt:** Canlyniad cyllideb 2010-11 ar gyfer y portffolio plant, addysg a dysgu gydol oes yw bod y dyraniad refeniw 2.5 y cant yn fwy o'i gymharu â 2009-10 ac eithrio dyraniad a throsglwyddiadau cyllideb atodol 2009-10.

### Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**C14 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y portffolio amgylchedd, cynaliadwyedd a thai? OAQ(3)0979(BB)

**Jane Hutt:** Canlyniad cyllideb 2010-11 ar gyfer portffolio'r amgylchedd, cynaliadwyedd a thai yw bod y dyraniad refeniw 5.4 y cant yn fwy o gymharu â chyllideb 2009-10.

### Arian Llywodraeth Cynulliad Cymru

**C15 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am atebolrwydd o ran defnyddio arian Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)0995(BB)

**Jane Hutt:** Mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod yr holl arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd briodol ac mae'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol am ei gwariant. Mae'r cronfeydd a'r ffordd y maent yn cael eu defnyddio yn cael eu harchwilio yn annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Disgrifir y trefniadau hyn yn y ddogfen 'Managing Welsh Public Money'.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

### Cyfleusterau Newid ar gyfer Chwaraeon

**C10 Bethan Jenkins:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi unrhyw ganllawiau ar safonau cyfleusterau newid ar gyfer chwaraeon? OAQ(3)1052(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn rhoi canllawiau i ymgeiswyr sy'n ymwneud ag adeiladu neu uwchraddio prosiectau cyfleusterau newid ledled Cymru.

### Blaenoriaethau ar gyfer y Gyllideb Dreftadaeth

**C11 Alun Davies:** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y gyllideb dreftadaeth yn 2010-11? OAQ(3)1051(HER)

**Alun Ffred Jones:** Yr un yw fy mlaenoriaethau ar gyfer 2010-11 ag ar gyfer y flwyddyn gyfredol,

sef gweithredu a pharhau i wireddu ymrwymiadau ‘Cymru’n Un’ sydd o fewn y portffolio treftadaeth a sicrhau ei fod yn cyfrannu gymaint â phosibl at leihau effaith y dirwasgiad economaidd.

### Llyfrgelloedd Lleol yng Nghymru

**C12 Alun Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i lyfrgelloedd lleol yng Nghymru? OAQ(3)1048(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, ‘Llyfrgelloedd am Oes: Darparu Gwasanaeth Llyfrgell Modern i Gymru 2008-2011’, yn darparu’r buddsoddiad uchaf erioed o £10.5 miliwn dros gyfnod o dair blynedd. Caiff £4 miliwn o’r cyllid hwn ei fuddsoddi yn 2010-11 i ddatblygu llyfrgelloedd er budd addysgol ac adloniadol y cyhoedd.

### Talent Chwaraeon yng Nghymru

**C13 Lorraine Barrett:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog a chefnogi talent chwaraeon yng Nghymru? OAQ(3)1045(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod Cymru’n genedl fwy heini. Drwy fuddsoddi mewn chwaraeon ein nod yw creu cymunedau sy’n fwy egnïol yn gorfforol ac annog pobl i fod yn fwy hyddysg yn gorfforol yn ogystal â helpu i ddatblygu ein mabolgampwyr mwyaf talentog.

### Gwella Lefelau Gweithgarwch Corfforol

**C14 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella lefelau gweithgarwch corfforol yng Nghymru? OAQ(3)1044(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae ein dogfen strategol, ‘Creu Cymru Egnïol’, yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a’n prif bartneriaid yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf i wella lefelau gweithgarwch corfforol yng Nghymru.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1040(HER), yn ôl.*